OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 685 (Cy.67)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - - 4 Mawrth 2010
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 10 Mawrth 2010
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 9(3), 11(1), 21(1) a (2), 24 a 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym at ddibenion rheoliadau 3(2) a (3) a 6 ar 31 Mawrth 2010, ac at ddibenion yr holl reoliadau eraill ar 1 Ebrill 2010.

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003

2. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003(**2**) yn cael eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 9.

Budd-daliadau ymddeol

3.—(1) Yn lle rheoliad 4(2) rhodder—

> "(2) For the purposes of paragraph (1) and regulation 24 "retirement benefits" means benefits payable pursuant to statutory requirements under an arrangement accounted for as a defined benefit pension plan or as other long-term employee benefits (as defined in accordance with proper practices).".

(**1**) 2003 p. 26. Diwygiwyd adran 24 gan adran 238(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).
(**2**) O.S. 2003/3239 (W.319) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/1010 (W. 107), 2004/2918 (W.257), 2006/944 (Cy.93), 2006/2914, 2007/1051 (Cy.108), 2008/588 (Cy.59) a 2009/560 (Cy.52).

(2) Mewn perthynas â chyfrifon sydd wedi eu paratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2009, mae paragraff (1) yn effeithiol fel pe bai'r geiriau "defined benefit scheme" wedi eu rhoi yn lle'r geiriau "defined benefit pension plan or as other long-term employee benefits".

(3) Yn rheoliad 24(1), rhodder y geiriau "statutory requirements mentioned in" yn lle'r geiriau "legislation specified in sub-paragraphs (a) to (f) of".

Y defnydd o dderbyniadau cyfalaf

4.—(1) Yn rheoliad 18(2), yn lle'r geiriau "paragraphs (3) and (6)", rhodder "paragraphs (3), (6) and (7)".

(2) Yn rheoliad 18(6), hepgorer y gair "administrative".

(3) Ar ôl rheoliad 18(6), mewnosoder—

"(7) Where a local authority receives a capital receipt in respect of a disposal of an interest in land other than housing land, the capital receipt may be applied in defraying the costs of or incidental to the disposal, provided that such costs do not exceed 4% of the capital receipt arising from the disposal.".

Ôl-dâl yn dilyn cyflog anghyfartal

5. Ar ôl rheoliad 24A(4), mewnosoder—

"(5) Subject to paragraph (6), this regulation ceases to have effect on 1 April 2013.

(6) Where paragraph (4) applies to an amount, it continues to apply until the date on which the payment is actually made, whether or not the date is on or after 1 April 2013.".

Lleihad yng ngwerth rhai buddsoddiadau

6.—(1) Mae rheoliad 24G yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) yn is-baragraff (b), hepgorer "or";

(b) ar ôl is-baragraff (b), mewnosoder—

"(ba) an impairment loss is recognised in a revenue account of the local authority for the financial year beginning on 1 April 2010;"; ac

(c) ar ddiwedd is-baragraff (c), hepgorer "," a mewnosoder—

"; or

(d) the value of an impairment loss recognised in a revenue account of the local authority for the financial year beginning on 1 April 2009 is increased in a revenue account of the authority for the financial year beginning on 1 April 2010,".

(3) Ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

"(2A) A local authority which credits an amount to a revenue account for the financial year beginning on 1 April 2009 under paragraph (1) may debit an amount of up to the value of that credit to a revenue account for the financial year beginning on 1 April 2010.".

(4) Ym mharagraff (3)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl "2008", mewnosoder "or 1 April 2009";

(b) yn is-baragraff (b)(i), ar ôl "2009", mewnosoder "or 1 April 2010"; ac

(c) yn is-baragraff (b), ar ôl "2009" (lle y digwydd am yr eildro), mewnosoder "or, as the case may be, 1 April 2010".